

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Medi 8, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans, Carwyn Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 14, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Gorffennaf 14, 2020

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Bil (6/8/2020) am £1,296.00 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed, Trawsfynydd am dorri llwybrau cyhoeddus ardal Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £1,242.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (10/8/2020) oddi wrth Marie Curie yn diolch am ein rhodd o £100.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 8, 2020

ch. Llythyr (26/8/2020) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £3,750 yn ein cyfrif ar 29/8/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

d. Bil (24 Awst 2020) am £58.88 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 12 Chwefror 2019 - 11 Awst 2020. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £113.04).

dd. Derbyniwyd (29/8/2020) £175.00 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Brenda Elizabeth Roberts. Claddu gweddillion o'r amlogfa.

e. Llythyr (1/9/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod ar gyfer 2020/2021 o 1/4/2020. Mae'r cyflog yn unol â Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2020-2021.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.37 yr awr ar bwynt SCP 8, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2020/21 fydd £10.65 yr awr ar bwynt SCP 8, h.y. £10.65 x 12awr x 12mis = £1,533.60 y flwyddyn.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau

Penderfynwyd derbyn y newid.

f. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2019 - Mawrth 31, 2020:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £347.94. (Llynedd roedd y costau yn £281.53).

Penderfynwyd talu'r costau.

ff. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2020: £10,772.87. (29 Gorffennaf 2019: £9,179.78).

Balans yn y banc ar 29 Awst, 2020: £14,298.43. (29 Awst 2019: £8,918.30 ddim yn cynnwys y praesept).

6. Archwilio

a. Llythyr (13/8/2020) oddi wrth BDO LLP yn cynnwys 'Hysbysiad diwygiedig o archwiliad 2019-20' wedi ei baratoi gan Archwilio Cymru. Maent angen i ni roi ar ein gwefan tudalen 'Hysbysiad o ddyddiad penodi ar gyfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004' cyn 16/8/2020. Anfonwyd y wybodaeth i Elfed ap Gomer. Rhoddwyd yr hysbysiad hefyd ar hysbysfyrdau'r gymuned (14/8/2020).

Diolchwyd i Elfed ap Gomer am y gwaith cyfrifiadur mae'n ei wneud ar ran y Cyngor.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/252F. Caniatâd dros dro am gyfnod o 5 mlynedd i osod 'Portakabin' ar y safle fel swyddfa (Defnydd B1). Glasfryn Stores, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/9/2020).

ii. NP5/65/L302D. Trosi ysgubor a'i ymestyn yn annedd fforddiadwy gan gynnwys gosod tanc septig. Wern y Pistyll, Bontddu..

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (28/8/2020) yn cynnwys holiadur yn ymwneud â 'Amcanion Gwella a Llesiant' ar gyfer 2021-2026'.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (17/7/2010) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn amgau manylion cynllun i wella Llwybr Buan (llwybr o hen bont Llanelltyd i'r Golff).

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (7/9/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda gorchymyn gwaharddiad defnydd dros dro o lwybr cyhoeddus o gyffordd Ffordd Dosbarth III i'r Golff. Bydd gorchymyn yn dod i rym ar 28/9/2020 ac yn para am chwe mis i wella'r llwybr.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

b. Galwad ffôn (6/8/2020) oddi wrth Mr Glyn Williams, gofalwr Neuadd Llanelltyd, yn rhoi gwybod bydd y neuadd ar gael i'n cyfarfod mis nesaf. Mae'r ddwy ystafell ar gael ac awgrymais i Mr Williams i ni ddefnyddio'r stafell fawr. Bydd mynediad trwy'r prif ddrws a bydd 'hand sanitiser' ar gael i'w ddefnyddio wrth ddod i mewn a mynd allan. Bydd angen cadw draw 2m. Penderfyniad yr unigolyn fydd os mae am wisgo mwgwd / menig (mewn Capel mae rhaid gwisgo mwgwd).

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau am eu sylw ar y mater.

O'r ymateb derbyniwyd gan yr aelodau penderfynwyd cael y cyfarfod ar Zoom.

Penderfynwyd cael y cyfarfod nesaf ar Zoom.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 8, 2020

c. Llythyr (6/8/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd gyda 6ed Bwletin 'Gyda'n Gillydd'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw i'r mater.

ch. Llythyr (10/8/2020) oddi wrth Uwch Swyddog Gweithrediadau Coedwig, Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am y bwriad i dorri / symud coed yn y goedwig wrth Bro Cymer.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw i'r mater.

Wedi cael gwybodaeth gan John Hughes, rhoddwyd gwybod (10/8/2020) i'r Swyddog Gweithrediadau Coedwig i daro nodyn i dai Bro Cymer yn rhoi gwybod am y gwaith bydd yn cael ei wneud. Rhoddwyd gwybod iddo hefyd bydd dim angen cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.

Llythyr (21/8/2020) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn amgáu cylch lythyr bwriedi'r dosbarthu i drigolion Bro Cymer ynglŷn â'r gwaith torri coed.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau yn holi os oedd sylwadau angen ei wneud i'r cylch lythyr. Rhoddwyd gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (25/8/2020) roedd y llythyr yn gywir.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael gwybod beth yw eu rhaglen yn y blynyddoedd nesaf i dorri coed yn ardal Llanelltyd.

d. Llythyr (12/8/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ynglŷn â dileu rhai Blychau Ffôn Talu Cyhoeddus oherwydd nid ydynt yn cael digon o ddefnydd. O'r rhestr blychau ffôn, Bontddu (rhif ffôn 01341 430 225) sydd dan sylw. Mae'r blwch wrth Dwygant. Mae arwydd wedi ei roi yn y blwch yn rhoi gwybod am y bwriad a beth mae un i'w wneud. Mae BT yn rhoi cyfle i gymunedau lleol, cynghorau ac elusennau i fabwysiadu'r blychau ffôn coch fel ased. Y gost yw £1. Maent angen gwybod ein barn cyn 5/9/2020

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw i'r mater.

O'r ymateb derbyniwyd gan yr aelodau roedd cefnogaeth i fabwysiadu'r bocs ffôn coch. Rhoddwyd gwybod i Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad (20/8/2020). Roedd Gethin Williams yn fodlon cynnal a chadw'r bocs ffôn.

dd. Llythyr (20/8/2020) oddi wrth Cyngor Cymuned Llanllyfni yn amgáu cynnig am gefnogaeth gan gynghorau cymuned / tref i godi tal am fynediad i'r Wyddfa. Mae angen cefnogaeth hefyd i gael cyfarfod ar y mater yn Siambr Gyngor Gwynedd a rhoi gwybod i Arweinydd Cyngor Gwynedd.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 8, 2020

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor ein bod yn cytuno gyda'r cynnig i gynnal cyfarfod ynglŷn â chodi tal am fynediad i'r Wyddfa. Bydd Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn cael gwybod o'n penderfyniad.

Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod ynglŷn â'r mater ac roedd sawl awgrym dylid ei ystyried gan gynnwys: mater i'r sir yw hwn, mae anawsterau codi tâl i gerdded y mynyddoedd gydag amryw o lwybrau, codi treth twristiaid, twristiaid fod efo yswiriant i ddringo mynyddoedd, cael ffyrdd toll.

e. Llythyr (27/8/2020) oddi wrth Heddlu Dyfed Powys trwy Un Llais Cymru. Maent yn rhybuddio cynghorwyr o scam sy'n cael ei wneud i brynu cardiau oddi wrth Amazon.

f. Galwad ffôn oddi wrth Mrs Rebecca Lloyd yn diolch am ysgubo palmentydd Bontddu.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Gweler Eitem 9.dd. uchod.

11. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
